# the index / y mynegai

**Haf 2023**
Rhifyn 44





Y cylchlythyr i blant a phobl ifanc sydd ag anableddau neu anghenion ychwanegol ym Mro Morgannwg





Teuluoedd yn Gyntaf / Families First

VALE of GLAMORGAN / BRO MORGANNWG

# Cylchlythyr y Mynegai

## Haf 2023 | Rhifyn 44

**The newsletter for children and young people with disabilities or additional needs in the Vale of Glamorgan**



Croeso i Rifyn 44, Rhifyn yr Haf o Gylchlythyr y Mynegai.

Cliciwch yma i wylio fideo gan Swyddog y Mynegai yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y Mynegai.

Byddai'n bleser mawr gennym dderbyn unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar y Mynegai ond yn enwedig y cylchlythyr hwn, Rhifyn yr Haf, er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i'w deilwra i anghenion ein plant, ein pobl ifanc a'n teuluoedd yn y Fro. Mae ein gwybodaeth gyswllt isod at y diben

Rhif cyswllt: 0800 5871 014
E-bost: theIndex@valeofglamorgan.gov.uk

Cliciwch yma i gwblhau ein harolwg byr

# Beth sy'n digwydd yn lleol?



Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro wedi llunio Rhaglen Gweithgareddau Gwyliau. Bydd hon ar gael yma: www.valeofglamorgan.gov.uk/RhaglenGweithgareddauHaf fro 15 Gorffennaf 2023.

Bydd gweithgareddau a digwyddiadau newydd yn cael eu hychwanegu'n barhaus drwy gydol gwyliau'r haf.

Os ydych yn chwilio am gynlluniau gofal gwyliau ledled y Fro, gallwch ddod o hyd i restr ar wefan Gwybodaeth Gofal Plant Cymru www.gwybodaethgofalplant.cymru

neu gysylltu â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn uniongyrchol: 01446 704704

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro
Vale Family Information Service

## Darpariaeth Chwarae Cynhwysol y Fro



**Dyddiadau ar gyfer Darpariaeth Chwarae Cynhwysol y Fro - Haf 2023:**

**Dydd Mawrth 1 Awst – Dydd Iau 3 Awst**

**Dydd Mawrth 8 Awst – Dydd Iau 10 Awst**

**Dydd Mawrth 15 Awst – Dydd Iau 17 Awst**

**Dydd Mawrth 22 Awst – Dydd Iau 24 Awst**

Bydd Tîm Chwarae'r Fro yn cynnig ystod o gyfleoedd chwarae cynhwysol yn ystod gwyliau'r haf. Gwyliwch fideo'r tîm yma i gael gwybod am y darpariaethau y mae'n eu cynnig i blant a phobl ifanc ledled y Fro.

Bydd manylion yr holl sesiynau mynediad agored yn ystod yr haf yn cael eu rhyddhau ar dudalen EventBrite y tîm ddydd Gwener 23 Mehefin: valeplayteam.eventbrite.co.uk

Bydd y Ffurflen Gais i blant sydd angen cymorth ychwanegol yn Narpariaeth Chwarae Cynhwysol y Fro yn mynd yn fyw ddydd Gwener 23 Mehefin, a'r dyddiad cau ar gyfer cadw lle fydd dydd Gwener 7 Gorffennaf. Mae lleoedd yn seiliedig ar angen a chânt eu cynnig ar sail y cyntaf i'r felin. Cysylltir â phob teulu gyda chanlyniad ei gais am le erbyn dydd Gwener 14 Gorffennaf.

## Mae Vale People First yn cynnal Teenscheme, a ariennir ag arian Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru.

**Pryd:** Dydd Mercher a dydd Iau drwy gydol gwyliau'r haf
**Amser:** 10.00am – 3.00pm
**Ble:** Neuadd Gymunedol y Parc Celtic, Celtic Way, Y Rhws, Bro Morgannwg CF62 3FT

- Dewch â phecyn bwyd gyda diod, ac maen nhw'n gofyn am gyfraniad o £5 y dydd os gallwch.
- ydd ganddynt Gynorthwywyr Personol i roi gofal personol a bydd un ohonynt wedi'i hyfforddi'n feddygol ar gyfer pobl ifanc sydd angen meddyginiaeth neu fwydo drwy diwb PEG.
- Hyn a hyn o leoedd sydd.
- Trwy atgyfeiriad yn unig y gellir cymryd rhan yn Teenscheme o hyd.

## Be sy 'mlaen yn ystod Gwyliau'r Haf?

Chwaraeon a gweithgareddau awyr agored os yw'r tywydd yn caniatáu, a llawer mwy o weithgareddau dan do.

Gellir gofyn am lyfrau cyfeirio "Amdanaf Fi" drwy e-bostio'r cyfeiriad e-bost: vpfteenscheme@gmail.com

## Clybiau Ieuenctid yn y Fro

Mae sawl clwb ieuenctid ar draws y Fro. Mae pob un yn rhad ac am ddim ac yn darparu ar gyfer unrhyw berson ifanc rhwng 10 a 25 oed sy'n byw ym Mro Morgannwg. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys chwaraeon, trafodaethau anffurfiol, ffilmiau, celf a chrefft, pŵl, ymlacio gyda ffrindiau, lle i gwrdd sy'n gynnes ac yn sych, sesiynau addysg, coginio, Cynllun Gwobr Dug Caeredin, ACU - cyrsiau achrededig rydych yn cymryd rhan ynddynt a lle rydych yn cael eich achredu am eich dysgu, cyfleoedd gwirfoddoli, hyfforddiant mewnol, prosiectau cyfranogi sy'n rhoi'r cyfle i chi leisio eich barn. Mae gan Wasanaeth Ieuenctid y Fro ddarpariaeth ieuenctid symudol hefyd sef ei fws o'r enw VPOD sy'n gallu teithio i ardal i gynnig gweithgareddau ieuenctid.





Mae'r clybiau'n rhedeg ar sail angen felly gofynnwch am yr hyn rydych am ei wneud a gellir ei ymgorffori o fewn rheswm.

Rydym yn ymdrechu i fod yn gynhwysol i bob person ifanc felly os oes gennych ymholiad ynghylch unrhyw un o'n darpariaethau, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r rhif neu'r cyfeiriad e-bost isod.

Ffôn: 01446 709308

E-bost: valeyouthservice@valeofglamorgan.gov.uk

CLICIWCH YMA i weld Digwyddiadau Haf Gwasanaeth Ieuenctid y Fro

## Cyfres INSPORT yn y Fro

Mae digwyddiadau Cyfres Insport yn darparu cyfleoedd chwaraeon cynhwysol i oedolion a phobl ifanc anabl ledled Cymru. Mae'r digwyddiad rhad ac am ddim hwn wedi'i drefnu i gael ei gynnal ym Mro Morgannwg yn ysgol St Cyres, Penarth ym mis Gorffennaf.

Bydd amrywiaeth o chwaraeon ar gael i ymuno â nhw, i gyd yn cael eu cyflwyno gan Glybiau Insport lleol a Chyrff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol. Mae'r cyfleoedd hyn i gyd yn cysylltu â llwybr lleol i mewn i glybiau cynhwysol lleol sefydledig (Clybiau insport)

Bydd y digwyddiad yn cael ei gydlynu gan Chwaraeon Anabledd Cymru a'i gyflwyno mewn partneriaeth â Thîm Byw'n Iach Cyngor y Fro a chlybiau a CRhC sydd â safon Insport ar hyn o bryd.

Os hoffech dderbyn rhagor o wybodaeth, cofrestrwch eichdiddordeb yma



# Diwrnodau Hwyl i'r Teulu

## Diwrnod Hwyl i'r Teulu Dechrau'n Deg

**Pryd:** Dydd Mercher 26 Gorffennaf 2023 **Amser:** 10am-3pm
**Ble:** Caeau Pencoedtre, CF63 1SD **Cost:** Am ddim

Mae Dechrau'n Deg yn cynnal diwrnod blynyddol o hwyl i'r teulu mewn partneriaeth â Gwasanaeth Ieuenctid y Fro, y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Teuluoedd yn Gyntaf, Tân ac Achub, Addysg Oedolion y Fro a Gwasanaethau Iechyd i gynnig amrywiaeth o weithgareddau am ddim i deuluoedd eu mwynhau.

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys paentio wynebau, cebabau ffrwythau, cestyll neidio, bro radio, beicio, celf a chrefft, modelu balwnau, cerddoriaeth Moo, ioga, dewin, a llawer mwy.

Bydd gennym hefyd amrywiaeth o stondinau bwyd lle gallwch brynu diodydd a byrbrydau, ond mae llawer o le i fwynhau picnic teuluol felly dewch â blanced a mwynhewch y diwrnod.

Gobeithio eich gweld chi yno. Mae'r digwyddiad yn rhad ac am ddim ac nid oes angen cadw lle. I gael mwy o wybodaeth, cadwch olwg ar dudalen Facebook Dechrau'n Deg y Fro #DechraunDegyFro

CLICIWCH YMA i weld Poster Diwrnod o Hwyl Dechrau'n Deg

## Mae Tîm Datblygu Chwarae'r Fro yn eich gwahodd i ddathlu Diwrnod Chwarae Cenedlaethol

**Pryd:** Dydd Mercher 2 Awst 2023 **Amser:** 11am - 3pm
**Ble:** Canolfan Gymunedol a Chae Chwarae Buttrills, North Walk, Y Barri, CF62 8BX

**Sylwch:** Mae Canolfan Gymunedol Buttrills yn gwbl hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn

Bydd Diwrnod Chwarae Cenedlaethol yn cael ei ddathlu ledled y DU ym mis Awst dan y thema 'Chwarae am y nesaf peth i ddim - gwneud pob diwrnod yn antur'. Nod y diwrnod yw tynnu sylw at yr effaith bwysig y mae chwarae yn ei chael ar iechyd corfforol, iechyd meddwl, a pherthnasau plant a phobl ifanc. Ymunwch â ni i ddathlu Diwrnod Chwarae Cenedlaethol yn y Fro.

Yn dilyn digwyddiad hynod lwyddiannus yr haf diwethaf, bydd Tîm Chwarae'r Fro unwaith eto yn partneru â Thîm Datblygu Chwaraeon y Fro, Recreate Scrapstore, Gwasanaeth Ieuenctid y Fro, y Tîm Dechrau'n Deg, y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, Gwasanaeth Rhianta'r Fro, Llyfrgelloedd y Fro a'r Tîm Dysgu Oedolion i gyflwyno diwrnod llawn gweithgareddau cynhwysol a hwyliog i bawb eu mwynhau.

Bydd y gweithgareddau'n cynnwys: Modelu Sothach, Dinas Gardbord, Gemau Awyr Agored, Bydoedd Bach, Adeiladu Lle Cuddio, Ceginau Mwdlyd a llawer mwy!

CLICIWCH YMA i weld Poster Diwrnod Chwarae Cenedlaethol

## Clwb Gymnasteg All Stars





Mae'r clwb yn cynnig dosbarthiadau cynhwysol i bobl o bob oedran a gallu, o oedran cerdded i oedolion. Mae ganddo ddosbarthiadau i ddechreuwyr, gymnastwyr lefel canolradd ac uwch yn ogystal â sesiynau anghenion dysgu ychwanegol a dosbarthiadau Rhieni a Phlant rwyf wedi'u cynnwys isod. Mae'r clwb yn cynnig cyfle i'r gymnastwyr ennill tystysgrifau a chymryd rhan mewn cystadlaethau.

**Chwarae Agored Anghenion Dysgu Ychwanegol**
**Pryd:** Y rhan fwyaf o ddyddiau Sadwrn 2pm
**Ble:** Uned 29/30, Canolfan Fusnes JR, Main Avenue, Ystâd Ddiwydiannol Trefforest

**Dosbarth Rhieni a Phlant**
**Pryd:** Dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Iau 10am a dydd Gwener 10am ac 1pm
**Ble:** Uned 29/30, Canolfan Fusnes JR, Main Avenue, Ystâd Ddiwydiannol Trefforest

**Chwarae am ddim**
**Pryd:** Dydd Gwener 11:30am
**Ble:** Uned 29/30, Canolfan Fusnes JR, Main Avenue, Ystâd Ddiwydiannol Trefforest

Mwy o wybodaeth:
Rhif cyswllt: 07928 436799
Gwefan: https://allstarsgymnastics.co.uk
Facebook: https://www.facebook.com/Allstarsgym1

## Dreigiau Gleision Caerdydd

**Ble:** Ty Chwaraeon, Clos Parc Morgannwg, Caerdydd CF11 8AW
**Pryd:** Dydd Mercher 6-7pm

Mae Dreigiau Gleision Caerdydd yn glwb ac yn gamp cynhwysol (efallai eich bod wedi gweld Cynghrair Rygbi Cadair Olwyn yng Nghwpan y Byd ym mis Tachwedd) ac maen nhw bob amser yn chwilio am bobl i ymuno â nhw. Maen nhw'n hoffi annog teuluoedd/gofalwyr i gymryd rhan hefyd a byddan nhw'n chwarae yng Nghynghrair Gwahoddiadol Cymru sy'n dechrau ym mis Awst. Gall pobl o unrhyw oedran hyfforddi gyda nhw, ar hyn o bryd mae eu haelod ieuengaf yn 8 oed ac mae eu haelod hynaf yn ei 70au. Mae pob rhywedd yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd. Yr unig amod yw y gall cyfranogwyr hunan-yrru/gwthio cadair olwyn. Ar hyn o bryd dim ond 2 dîm sydd yn Ardal De Cymru, Dreigiau Gleision Caerdydd a chlwb ym Mhont-y-pŵl.



I gael rhagor o wybodaeth:
Ffoniwch y Prif Hyfforddwr Alana Sargent: 07761 263111
E-bost: cardiffwheelchairrl@gmail.com
Instagram: @cardiff_blue_dragons_rl



# Pa wasanaethau sydd ar gael yn yr ardal leol a'r cyffiniau?

## Codi Llais Ieuenctid y Fro

**Pryd:** Dydd Iau 4:45-6:45pm
**Ble:** Canolfan Gymunedol Buttrills, Y Barri, CF62 8BX

Grŵp i blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu rhwng 16 a 25 oed yw Codi Llais Ieuenctid y Fro. Mae'r grŵp wedi bod yn siarad am ei hawliau a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant yn ddiweddar. Mae wedi trafod Hunaniaeth a Chenedligrwydd, Hawl i Gynhwysiant a bydd yn edrych ar Faeth ac Iechyd yn ystod yr ychydig sesiynau nesaf. Nod y grŵp yw tynnu sylw at a mynd i'r afael â materion gwahaniaethu a bwlio sy'n wynebu pobl ifanc ag anableddau. Un o brif amcanion y prosiect yw grymuso a hwyluso cyfranogiad pobl ifanc mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Mae'r grŵp wedi defnyddio dulliau arloesol i ledaenu'r neges y gall pobl ag anableddau lwyddo pan fydd rhywun yn gwrando arnynt a phan fyddant yn cael y cymorth cywir.

I gael mwy o wybodaeth, gallwch gysylltu ag Ashleigh: Rhif cyswllt 07714 924140



Vale People First
'Getting out, Getting on'

## Cysylltiadau Cymunedol

Mae tri Chysylltwr Cymunedol Niwroddatblygiadol wedi ymuno â Gwasanaeth Niwroddatblygiadol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fel rhan o brosiect peilot a ariennir gan gyllid grant Llywodraeth Cymru.


Diben y rolau hyn yw cefnogi teuluoedd plant 0-7 oed sy'n aros am ddiagnosis niwroddatblygiadol trwy wella'r profiad y mae teuluoedd yn ei gael wrth iddynt aros, gan sicrhau bod teuluoedd yn gallu cael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt, pan fydd ei angen arnynt.

Yn ymarferol, bydd y rôl yn helpu teuluoedd i lywio'r system niwroddatblygiad gymhleth trwy wrando ar yr hyn sy'n bwysig i deuluoedd a'u cysylltu â chymorth sy'n bodloni anghenion eu teulu.

Bydd y Cysylltwyr Cymunedol yn dechrau hyn drwy gynnal sesiynau gwybodaeth i rieni a gofalwyr plant sydd ar y rhestr aros, a ddarperir gyda phartneriaid amlasiantaethol i nodi ble y gall cymorth fod ar gael i deuluoedd gael mynediad ato.

Community Connections
Cysylltiadau Cymunedol

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board



# Edrycha i weld a wyt ti'n gymwys ar gyfer Cynnig Gofal Plant Cymru

## Y Cynnig Gofal Plant

Ydy eich plentyn yn dechrau addysg feithrin ran-amser ym mis Medi?

Os ydych yn fyfyriwr neu'n rhiant/gofalwr sy'n gweithio i blentyn 3 neu 4 oed, gallech hefyd fod yn gymwys i gael arian tuag at gost gofal plant drwy Gynnig Gofal Plant Cymru. Ceisiadau ar agor nawr!

**Cymorth Ychwanegol**
To make sure that all children receiving the Childcare Offer can access the childcare they need, we can fund equipment, training for staff, adaptations or additional staff in their childcare provision.

I sicrhau bod pob plentyn sy'n derbyn y Cynnig Gofal Plant yn gallu manteisio ar y gofal plant sydd ei angen arno, gallwn ariannu offer, hyfforddiant i staff, addasiadau neu staff ychwanegol yn eu darpariaeth gofal plant. Os oes angen rhagor o gymorth ar eich plentyn i fanteisio ar ei leoliad gofal plant, cysylltwch â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar:
01446 704704
childcareoffer@valeofglamorgan.gov.uk

Gallwn hefyd eich helpu i ddod o hyd i ofal plant addas. Os ydych wedi penderfynu peidio â chymryd lle addysg feithrin rhan-amser eich plentyn, gallwch ddal cael mynediad at gyllid y Cynnig Gofal Plant.

Am fwy o wybodaeth, y meini prawf cymhwysedd a'ch cais Cynnig Gofal Plant, ewch i:
www.valeofglamorgan.gov.uk/CynnigGofalPlant

Cynnig Gofal Plant Cymru – The Childcare Offer for Wales
Addysg gynnar a gofal • Early education and care

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



## LIFE Cysylltu Teuluoedd Cynhwysol trwy Ddigwyddiadau Cymdeithasol



**Boreau coffi sydd i ddod**

**Pryd:** 12 Medi 10:00 – 12:00
**Ble:** Caffi Cymunedol y Rhws, Eglwys Sant Pedr, Heol yr Eglwys, Y Rhws CF62 3EX

**Pryd:** 11 Hydref 10:00 – 12:00
**Ble:** Caffi Cymunedol Lana (Pont rhwng y Ganolfan Gymunedol) Heol Y Llongau Barri CF63 4AR

**Pryd:** 15 Tachwedd 10:00 – 12:00
**Ble:** Caffi Cymunedol The Gathering Place, Flemingston Road, Sain Tathan CF62 4JH

Linking Inclusive Families through Social Events – LIFE

Mae L.I.F.E yn elusen gofrestredig sydd wedi ymrwymo i roi cymorth i deuluoedd sydd ag anabledd a/neu anghenion dysgu ychwanegol ac sy'n byw ym Mro Morgannwg a'r ardaloedd cyfagos. Cafodd ei sefydlu gan bum rhiant gwirfoddol sydd â phlant a/neu anghenion dysgu ychwanegol.

Gwnewch gais i fod yn un o'u ffrindiau: www.facebook.com/ALNCharity
E-bost: info@life-charity.co.uk

## HAPI (Hapus, Uchelgeisiol, Ffyniannus a Chynhwysol)

Mae'r prosiect HAPI ar gyfer Caerdydd a'r Fro yn ei ail flwyddyn ar ôl cael ei lansio ym mis Mai 2021. Mae'r prosiect yn cael ei gynnal gan Gymdeithas Tai Newydd a'i ariannu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Maen nhw'n ceisio cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol a gwella arferion bwyta'n iach y trigolion hynny sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r prosiect yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau corfforol a gweithgareddau bwyta'n iach AM DDIM i gymryd rhan ynddynt, fel dosbarthiadau ymarfer corff, prosiectau cerdded, cyrsiau maeth a choginio. Mae'r prosiect yn agored i unrhyw un sy'n byw yng Nghaerdydd a'r Fro, gan ganolbwyntio'n benodol ar y rheiny sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd a allai fod â rhwystrau wrth gael mynediad at y mathau hyn o weithgareddau. Maen nhw wedi gweithio gydag unigolion, grwpiau cymunedol, teuluoedd ac ysgolion a gallant deilwra sesiynau i fodloni anghenion. Yn ddiweddar maen nhw wedi dechrau sesiynau Anghenion Dysgu Ychwanegol o fewn ysgol ym Mro Morgannwg.



hapi

I gael rhagor o wybodaeth:
Rhif cyswllt: Adele Taylor: 07816 455995
E-bost: adele.taylor@newydd.co.uk
Gwefan: www.newydd.co.uk/cy/sut-y-gallwn-ni-helpu/cymryd-rhan/hapi-project

## Gwasanaeth Cwnsela a Therapi Chwarae Cynradd Cymunedol Bro Morgannwg

Mae Gwasanaeth Cwnsela a Therapi Chwarae Cynradd Cymunedol Bro Morgannwg yn cynnwys tîm o gwnselwyr a therapyddion chwarae annibynnol, cofrestredig sy'n gweithio ar ran Cyngor Bro Morgannwg. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda phlant oed ysgol gynradd, 4-11 oed.

Gwneir atgyfeiriadau drwy gysylltu â Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf ar: 0800 0327 322

Mae angen i'r person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn ac sydd wedi cydsynio i gael mynediad at therapi wneud yr atgyfeiriad.

## Seren Dwt

*Welcoming all Dinky Stars with their extra little sparkle...*

Mae Seren Dwt yn sefydliad elusennol dielw sy'n rhoi Bocsys Croeso i fabanod sy'n cael eu geni â syndrom Down ymhob Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Mae'r bocs yn dathlu eu geni ac yn cyfeirio teuluoedd at grwpiau ac elusennau cymorth lleol a chenedlaethol. Mae teuluoedd yn cael y bocs yn yr ysbyty pan gaiff y babi ei eni.



Mae Seren Dwt yn cynnal grŵp cyfarfod misol yng Ngogledd Caerdydd, de Cymru ar gyfer plant 0–5 oed a'u rhieni/gofalwyr yn ogystal â sesiynau cyfarfod ar gyfer pob teulu yn ystod gwyliau'r ysgol, ledled De Cymru.

Mae croeso i bob teulu yng Nghymru sydd â phlentyn â syndrom Down (o unrhyw oedran) ymuno â'r grŵp Facebook Seren Dwts in Wales

## Time Away

Mae Time Away yn elusen gofrestredig sy'n dod o hyd i leoedd gwag mewn llety gwyliau hunanarlwyo ac yn eu rhoi i'r rheiny sydd angen seibiant. Drwy roi'r cyfle i gael seibiant o amgylchedd y cartref, gallant helpu teuluoedd i fwynhau amser gyda'i gilydd i ffwrdd o fywyd arferol. Gellir cynnig gwyliau fel seibiant i rieni/gwarcheidwaid cyfreithiol i'r rheiny sy'n gallu dod o hyd i ofal plant yn ogystal ag i deuluoedd gyda'i gilydd.



**Meini Prawf Cymhwysedd:**

- Rydych yn rhiant neu'n warcheidwad cyfreithiol i blentyn dan 5 oed sydd â diagnosis sy'n newid ei fywyd.
- Mae'r plentyn hwnnw'n derbyn Lwfans Byw i'r Anabl (dyfarniad cyfradd uwch yr elfen gofal)

I gael rhagor o wybodaeth:
E-bost: hello@timeaway.org.uk
Facebook: www.facebook.com/TimeAwayUK
Gwefan: timeaway.org.uk



# Addysg

## Diweddariad ar Dribiwnlys Addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru

Mae'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn rhoi cymorth i blant a phobl ifanc 0 - 25 oed yng Nghymru sydd ag ADY. Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod pob dysgwr sydd ag ADY yn cael cymorth i oresgyn rhwystrau i ddysgu ac yn gallu cyflawni eu llawn botensial.

**Newidiadau i amserlen gweithredu ADY**
Mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wedi cyhoeddi'r penderfyniad i ymestyn cyfnod gweithredu'r Ddeddf ADY o dair blynedd i bedair blynedd.

Mae hyn yn golygu y bydd plant a oedd i fod i symud i'r system ADY rhwng mis Medi 2023 a mis Awst 2024, bellach yn symud i'r system ADY rhwng mis Medi 2023 a mis Awst 2025. Nid oes effaith ar hawliau plant, na'u rhieni, p ran gofyn i blentyn symud i'r system ADY.

I gael rhagor o wybodaeth ymweld y gwefan

# Pontio

## Prosiect Celt+, prosiect Cyflogadwyedd Cymunedau am Waith

Mae Celt+ yn brosiect cyflogadwyedd i'r rheiny sy'n byw ym Mro Morgannwg ac sy'n teimlo bod angen cymorth arnynt i ddychwelyd i gyflogaeth, gyda hyfforddiant neu gyda phrofiad gwaith. Maen nhw'n gweithio gyda phobl ifanc 16+ oed â phroblemau iechyd sy'n cyfyngu ar eu dewisiadau cyflogaeth. Ar hyn o bryd maen nhw'n gweithio gyda disgyblion a theuluoedd o Ysgol Arbennig y Deri i'w cefnogi gyda'u dewisiadau cyflogaeth ar ôl iddyn nhw orffen yn yr ysgol. Gallant gynnig:

- Cymorth am ddim gyda chwilio am swyddi, hyfforddiant, creu neu ddiweddaru CVs.
- Help gyda lleoliadau profiad gwaith a threialon gwaith.
- Help gyda rheoli problemau iechyd a symud pobl yn agosach at ddychwelyd i gyflogaeth.
- Gweithredu fel mentor cyflogaeth

Mae Celt+ hefyd yn helpu pobl 25+ oed yn y Fro ehangach i gael hyfforddiant neu gyflogaeth. Cymhwysedd: yn economaidd anweithgar, yn ddi-waith am gyfnod hir neu'r rheiny â phroblemau iechyd hirdymor. Maen nhw hefyd yn canolbwyntio ar y grŵp oedran 50+ sy'n bwriadu dychwelyd i'r gwaith neu sydd mewn perygl o adael y gwaith a dod yn economaidd anweithgar neu sydd wedi gadael y gweithlu yn ddiweddar ac wedi dod yn economaidd anweithgar.

Cliciwch yma i weld Poster

I gael rhagor o wybodaeth:
E-bost: c4w-barry@valeofglamorgan.gov.uk

## Braenaru Anghenion Dysgu Ychwanegol

Gwefan i helpu pobl ifanc ag ADY a'u teuluoedd i wneud dewisiadau a chynllunio'r camau nesaf wrth bontio o'r ysgol i addysg bellach.

I gael rhagor o wybodaeth:
Gwefan: www.braenaruady.cymru

Braenaru **ADY**
**ALN** Pathfinder

## Gwybodaeth Gyrfa Cymru i rieni a gofalwyr plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol



Mae Gyrfa Cymru wedi cyhoeddi tudalennau newydd i rieni. Gallwch gael gwybod am yr offer sydd ar gael i rieni a gofalwyr i gefnogi eu plentyn i wneud penderfyniadau am ei ddysgu a'i yrfa.

I gael rhagor o wybodaeth:
Gwefan: https://gyrfacymru.llyw.cymru/rhieni

Gyrfa Cymru
Careers Wales



### Our Contact Information

Y Mynegai: 0800 5871 014
E-bost: theindex@valeofglamorgan.gov.uk

Gwefan: www.valeofglamorgan.gov.uk/ymynegai

**Facebook:** @VOGFIS    **Twitter:** @ValeFIS

the index
y mynegai

### Ymwadiad

Nid yw mwyafrif y sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yn y cylchlythyr hwn yn cael eu rheoli na'u rhedeg gan Gyngor Bro Morgannwg. Cafodd y cylchlythyr hwn ei greu mewn ymdrech i'ch helpu i gysylltu gwasanaethau. Ni ellir dal Cyngor Bro Morgannwg yn atebol am y gwasanaethau a ddarperir gan unrhyw sefydliad allanol a enwir yn y cylchlythyr hwn ac ni ellir ei ddal yn atebol am unrhyw ddifrod neu golled a achosir gan unrhyw anghywirdeb yn y cylchlythyr hwn, nac ychwaith am weithredoedd unrhyw un o'r sefydliadau allanol a restrir. Nid yw rhestru sefydliad yn y cylchlythyr hwn yn golygu bod Cyngor Bro Morgannwg yn cymeradwyo'r sefydliad hwnnw, ac nid yw peidio â rhestru unrhyw sefydliad yn golygu nad yw'r Cyngor yn ei gefnogi ychwaith.